# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 12/05/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog drosDreftadaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

### Dyrandiad Cyllideb

**C9 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y gwnaeth roi sylw i'r angen i gau'r bwlch ffyniant yng Nghymru wrth ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1075(BB)

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Yn ystod y broses o bennu cyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11, cynheliais gyfarfodydd dwyochrog gyda phob Gweinidog i ystyried y pwysau a'r blaenoriaethau yr oedd eu portffolios yn eu hwynebu, er mwyn sicrhau bod ein cyllideb yn mynd i'r afael ag anghenion mwyaf dinasyddion Cymru.

### Dyrandiad Cyllideb

**C10 Leanne Wood :** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllid cyffredinol i Lywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1073(BB)

**Jane Hutt:** Terfyn gwariant adrannol Cymru yn 2010-11 yw £15.7 biliwn, sy'n fwy na dwywaith y lefel pan sefydlwyd y Cynulliad yn 1999. Fodd bynnag, yn dilyn yr adroddiad gan gomisiwn Holtham, yr wyf yn mynd ati i bwyso ar Lywodraeth y DU i ddiwygio fformiwla Barnett i sicrhau system gyllido decach.

### Dyrandiad Cyllideb

**C11 Brynle Williams:** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i gyllid ar gyfer y gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y dyfodol? OAQ(3)1060(BB)

**Jane Hutt:** Cymeradwywyd cyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol 2010-11 gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2009. Yr wyf eisoes yn archwilio, ynghyd â'm cyd-Weinidogion, y ffordd orau o fynd i'r afael â heriau ariannu'r dyfodol gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn gwarchod gwasanaethau hanfodol ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

### Toriad yng Ngwariant y Llywodraeth

**C12 Bethan Jenkins:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried y goblygiadau i Gymru yn dilyn adroddiad diweddar y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar doriadau yng ngwariant y Llywodraeth? OAQ(3)1054(BB)

**Jane Hutt:** Gan nad oes cyllidebau wedi'u cadarnhau ar gyfer 2011-12 a thu hwnt, yr wyf yn

asesu'r holl wybodaeth sydd ar gael a all ein helpu i ymbaratoi ar gyfer cyllidebau'r dyfodol.

### Dyraniad Cyllideb

**C13 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyrannu cyllid yn y dyfodol i'r portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol? OAQ(3)1053(BB)

**Jane Hutt:** Yn ystod y broses gyllidebu, byddaf yn cwrdd â'r holl Weinidogion portffolio i ddeall y pwysau a'r blaenoriaethau yn eu portffolios. Mae'n rhy gynnar i ddweud beth fydd yn deillio o'r broses hon.

### Blaenoriaethau

**C14 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf? OAQ(3)1062(BB)

**Jane Hutt:** Drwy barhau i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'n hagenda 'Cymru'n Un' a sicrhau canlyniadau er budd pobl Cymru. Byddwn yn parhau i drin hyn fel blaenoriaeth, fel y gwelir yng nghyllideb Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11.

### Trefniadau Cyllido

**C15 Chris Franks:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch trefniadau cyllido i Gymru? OAQ(3)1056(BB)

**Jane Hutt:** Yn dilyn adroddiad comisiwn Holtham, a oedd yn dangos bod angen fformiwla newydd seiliedig ar anghenion er mwyn sicrhau cyllid teg i Gymru, yr wyf wedi cynnal trafodaethau gyda Gweinidogion y Drysorlys yn pwysleisio'r achos hwn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

### Gwybodaeth Ddiwylliannol a Hanesyddol

**C9 David Melding:** Pa fesurau sydd ar waith i gymharu ansawdd gwybodaeth ddiwylliannol a hanesyddol gerllaw henebion ac atyniadau i dwristiaid yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1143(HER)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Mae Cadw yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i ddatblygu cynllun dehongli treftadaeth Cymru, y cynllun cyntaf o'r fath ar gyfer unrhyw wlad yn Ewrop. Mae Cadw hefyd yn rhan o Dehongli Cymru, grŵp llywio o sefydliadau sy'n helpu dehonglwyr. Yng Nghanol De Cymru, maent yn eu helpu drwy rwydweithio, hyfforddi a rhannu arfer gorau.

### Treftadaeth yn Sir Fynwy

**C10 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo treftadaeth yn sir Fynwy? OAQ(3)1148(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid yn defnyddio nifer o fentrau i hyrwyddo treftadaeth er budd y gymuned leol a thwristiaeth. Er enghraifft, yn ystod Wythnos Addysg Oedolion, sy'n cael ei chynnal ledled y wlad yr wythnos nesaf, bydd abaty Tyndyrn yn cynnal diwrnod o weithgareddau i ymwelwyr, a fydd yn rhad ac am ddim i

drigolion sir Fynwy.

### Treftadaeth Naturiol

**C11 Angela Burns:** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hyrwyddo treftadaeth naturiol Cymru? OAQ(3)1133(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ofalu am dreftadaeth naturiol Cymru, gan alluogi pobl i'w mwynhau, helpu pobl i'w deall a'i gwerthfawrogi a chefnogi'r rheini sy'n ei rheoli hi. Ein dyhead yw i'r dreftadaeth naturiol gael ei defnyddio a'i rheoli mewn ffordd gynaliadwy.

### Cynlluniau Nofio Am Ddim

**C12 Ann Jones :** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am gynlluniau nofio am ddim Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1155(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae'r cynllun nofio am ddim yn parhau i fod yn llwyddiannus iawn. Mae cynigion i wella'r cynllun nofio am ddim i blant a phobl ifanc yn cael eu datblygu a byddaf yn gwneud cyhoeddiad yn fuan iawn ynglŷn â'r newidiadau.

## Mynediad Am Ddim i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol

**C13 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darparu mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol? OAQ(3)1158(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mynediad am ddim i safleoedd Amgueddfa Cymru yw un o ymrwymiadau 'Cymru'n Un'. Mae wedi bod yn llwyddiant enfawr ers ei gyflwyno ym mis Ebrill 2001. Yn 2009-10, ymwelodd 1.64 miliwn o bobl â saith safle'r amgueddfa, sy'n fwy na dwbl y bobl a ymwelodd â nhw yn 2000-01, sef y flwyddyn olaf o godi tâl.

### Blaenoriaethau Gwario

**C14 Darren Millar:** A yw'r Gweinidog wedi penderfynu ar ei flaenoriaethau gwario ar gyfer y flwyddyn nesaf? OAQ(3)1161(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer 2010-11 yn parhau yr un fath â'r rheini ar gyfer 2009-10, sef gweithredu'r ymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' sydd yn y portffolio treftadaeth a pharhau i'w cyflawni, a sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint â phosib at y gwaith o wrthsefyll effaith y dirwasgiad economaidd.

### Cyllid ar gyfer y Rhaglenni 5x60

**C15 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer y rhaglenni 5x60? OAQ(3)1139(HER)

**Alun Ffred Jones:** Yn 2009-10, cafodd bron i £5 miliwn ei fuddsoddi yn y cynllun 5x60 ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd, ac mae'n rhoi cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o chwaraeon.